# Beth i'w ddisgwyl yn eich Apwyntiad Tinitws

## Cleifion newydd/apwyntiad cyntaf (1 awr)

- Yn eich asesiad cychwynnol, bydd awdiolegydd sy'n arbenigo mewn tinitws yn gofyn am hanes llawn eich clyw, eich tinitws a'ch iechyd a byddwn yn edrych i mewn i'ch clustiau. Bydd yr awdiolegydd yn tynnu cwyr os yn bosibl/os bydd angen, ac yna byddwn yn cynnal prawf clyw.
- Bydd yr awdiolegydd yn trafod ffyrdd o wella eich cyfathrebu â ffrindiau a theulu, dyfeisiau ychwanegol a all eich helpu i glywed yn well gartref, ffyrdd y gallwch reoli eich tinitws ac, os yw'n addas, cymhorthion clyw.
- Os ydych chi'n addas ar gyfer cymhorthion clyw, bydd yr awdiolegydd yn trafod pa gymhorthion clyw sy'n briodol i chi a'ch colled clyw. Byddwch yn dod yn ôl ar ddiwrnod gwahanol er mwyn gosod eich cymorth clyw.

## Apwyntiad gosod cymorth clyw (1 awr)

- Bydd yr awdiolegydd yn dangos eich cymorth clyw i chi ac yn sicrhau ei fod yn teimlo'n gyfforddus yn eich clustiau.
- Bydd yr awdiolegydd wedyn yn gosod eich cymorth clyw i'ch presgripsiwn. Efallai y bydd angen gwneud addasiadau i'ch cymorth clyw i reoli eich tinitws.
- Bydd yr awdiolegydd yn gweithio gyda chi i sicrhau bod eich cymhorthion clyw yn swnio'n glir ac yn gyfforddus.
- Yna bydd yr awdiolegydd yn eich dysgu am eich cymorth clyw, gan wneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut mae'n gweithio a sut i'w ddefnyddio gartref.

## Apwyntiadau yn y dyfodol

- Unwaith y byddwch chi'n glaf tinitws ac yn ddefnyddiwr cymorth clyw, byddwch chi'n glaf awdioleg parhaol. Nid oes angen atgyfeiriad meddyg teulu arall arnoch. Gallwch ein ffonio os oes angen apwyntiad arnoch.
- Bydd angen **prawf clyw arnoch bob 3 blynedd** a bydd angen **gwasanaeth ar eich cymorth clyw bob 6 mis**, cysylltwch â'n hadran i drefnu hyn.

## Gwybodaeth bwysig

- Os oes angen unrhyw ddulliau eraill o gyfathrebu arnoch chi fel print bras/braille/taflenni hawdd eu darllen, rhowch wybod i'r awdiolegydd.
- Mae croeso i chi ddod â rhywun i'r apwyntiad gyda chi

Clinig Awdioleg
Clinig 9, Cleifion Allanol
Ysbyty Athrofaol Cymru
Ffordd Parc y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 4XW
Ffôn: 029 218 43179
Ffôn symudol (Neges destun yn unig): 07805 670 359
E-bost: Audiology.Helpline.CAV@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board